rheolyddion, yn arbennig eu cydweithrediad gyda'r cylch cynllunio busnes a'r ymgynghoriad ffioedd.

2.5 Ar y cyfan, mae DPA ar gyfer Cofrestrau Achrededig wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn, ac eithrio 'cwblheir 95% o adolygiadau targedig o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn'. Cyflawnwyd 67% yn erbyn y targed hwn. Cwblhawyd cyfanswm o dri adolygiad wedi’u targedu yn ystod 2022/23, ac fe fethodd un (ar gyfer Cyngor Seicotherapi’r DU, a gwblhawyd ym mis Mai 2022) y DPA o ddau ddiwrnod gwaith. Roedd hyn oherwydd pwysau ar gapasiti tîm yn deillio o gynnydd parhaus mewn ceisiadau newydd, a heb fod ag adnoddau ychwanegol yn eu lle eto.

blwyddyn ariannol 2023/24, a bydd eu canlyniadau yn cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

3.8 Yn y ddau a ystyriom mewn cyfarfodydd achos ffurfiol ond ble penderfynom beidio cyfeirio at y Llys, fe nodom bwyntiau dysgu i'w porthi yn ôl i'r rheolyddion.

3.9 Eleni rydym wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran yr achosion a gyfeiriwyd i'r Llys o'r rhai a gawsom (i lawr i 0.77 % o 0.89%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler tabl 3).

3.10 O’r 18 o atgyfeiriadau i’r Llys o dan awdurdodaeth Adran 29 a wnaethom yn 2022/23, roedd saith yn ymwneud â phenderfyniadau panel yr NMC, pump yn ymwneud â phenderfyniadau panel SWE, dau yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, dau yn ymwneud â phenderfyniadau panel y GDC, a dau benderfyniad panel HCPC.

3.11 O’r 11 o atgyfeiriadau i’r Llys a wnaed yn 2021/22 nas datryswyd yn y flwyddyn ariannol honno, mae pob un ond un bellach wedi’i gwblhau. Tynnwyd un apêl yn ôl oherwydd i’r unigolyn cofrestredig gael ei dynnu oddi ar gofrestr y rheoleiddiwr mewn achosion eraill ac ni ellid gwrando apêl arall gan fod y Llys wedi dyfarnu nad oedd Adran 29 yn berthnasol i amgylchiadau’r achos. Cafodd wyth apêl eu cadarnhau neu eu setlo trwy ganiatâd. Bydd canlyniad yr un apêl sy’n weddill o 2021/22 yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

3.13 Yn ystod y flwyddyn ariannol, cyhoeddom 13 adroddiad adolygiad perfformiad. Roedd tri o'r adroddiadau hyn o'r cylch adolygu perfformiad y gwnaethom ddechrau ein hasesiadau ar ei gyfer ym mis Ionawr 2021. O'r adroddiadau hynny, cyflawnodd y GDC 17 o 18 o Safonau, cyflawnodd Social Work England 16 o Safonau a chyflawnodd PSNI 17 o Safonau.

3.14 Mae'r Safonau a gyflawnwyd gan bob rheoleiddiwr ar gyfer y cylch adolygu llawn a gwmpesir gan y flwyddyn ariannol hon wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

**Tabl 5: Safonau a fodlonir gan bob rheoleiddiwr yn y cylch yn dechrau Ionawr 2022**

| Rheoleiddiwr | Cyrraedd safonau allan o 18 |
|---|---|
| Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol | 17 |
| Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | 16 |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol | 18 |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol | 18 |
| Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 18 |
| Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol | 15 |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal | 13 |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | 17 |
| Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon | 18 |
| Social Work England | 16 |

### *Cyflwyno ymagwedd newydd i'n hadolygiadau perfformiad*

3.15 Yn gynnar yn 2022, cyflwynom ddull newydd o asesu perfformiad y rheolyddion. Fe symudom i broses ble rydym yn cynnal adolygiad 'cyfnodol' manwl o bob rheoleiddiwr bob tair blynedd ac yn monitro eu perfformiad yn y blynyddoedd eraill. Ym mlwyddyn gyntaf y broses hon, fe wnaethom gynnal dau adolygiad cyfnodol (o'r CDC a'r GOC) ac wyth adolygiad monitro.

3.16 Un o'n nodau allweddol wrth gyflwyno'r dull newydd hwn oedd canolbwyntio mwy ar y risgiau a nodir gennym drwy ein sylfaen dystiolaeth ac felly cyfeirio ein hadnoddau'n fwy effeithiol at y meysydd hyn. Roeddem am dreulio llai o amser yn edrych ar feysydd arferol lle nad oedd gennym unrhyw bryderon.

3.17 Yn ogystal â chanolbwyntio mwy ar risgiau, roeddem am gyhoeddi ein hadroddiadau yn gynt ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fwy effeithiol i helpu llywio'r meysydd perfformiad y dylem edrych arnynt ar gyfer pob rheoleiddiwr. Gosodwyd targed i ni ein hunain o gyhoeddi pob adroddiad o fewn tri mis i ddiwedd cyfnod adolygu rheolyddion a chyflawnwyd y DPA ar gyfer pob un o'r 10 rheoleiddiwr eleni.  Roeddem hefyd am ymgysylltu mwy â'r rheolyddion i wella tryloywder ein prosesau.

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI | SWE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolrif amser (mewn dyddiau) a gymerwyd i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer:** | | | | | | | | | | |
| **Graddedigion y Deyrnas Unedig** | 1 | 40 | 1 | 3.3 | 2 | Fferyllwyr = 0 Technegydd Fferyllfa = 0 | 4 | 0 | 9.5 | 0 |
| **Rhyngwladol** | 1 | 50 | 15 | 4.5 | 2 | Fferyllwyr = 0 Technegydd Fferyllfa = 0 | 27 | 0 | 22 | 0 |
| **Ffi dargadw flynyddol** | £800 | £690 deintyddion £114 DCPs | £420 | £360 (optometryddion, optegwyr cyflenwi a busnesau) £30 (myfyrwyr) | £320 (mynediad) £430 (Bl2 y DU) £215 (Bl2 graddfa is) £570 (Bl3+ y DU) £320 (Bl3+ graddfa is) | £257 (Fferyllydd) £121 (Technegwyr Fferyllfa) £365 (Eiddo) | £98.12 | £120 | £398 (Fferyllydd) £155 (Eiddo) | £90 |
| **Amser a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn cyntaf i benderfyniad y pwyllgor archwilio terfynol:** | | | | | | | | | | |
| **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 52 | 83 | 40 | 63 | 37 | 94.3 | 63 | 96 | 59.5 | 81 |
| **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 163 | 383 | 547 | 274 | 74 | 372.1 | 321 | 472 | 125 | 300.9 |
| **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 21 | 12 | 2 | 12 | 11 | 27.0 | 10 | 20 | 34 | 13 |
| **Amser o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad gwrandawiad addasrwydd i ymarfer terfynol:** | | | | | | | | | | |
| **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 87 | 110 | 135 | 75 | 58 | 126.5 | 153 | 154 | 109.5 | 178.3 |
| **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 184 | 361 | 492 | 358 | 184 | 414.6 | 355 | 407 | 160 | 318.9 |
| **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 53 | 48 | 12 | 32 | 41 | 58.0 | 45 | 19 | 62 | 28.6 |

3.31 Cawsom nifer cynyddol o bryderon ynghylch prosesau cofrestru'r rheolyddion, hyd at 55 o gymharu â 36 y flwyddyn flaenorol. Roedd yn ymwneud i raddau helaeth ag ymgeiswyr, ymgeiswyr rhyngwladol yn aml, yn profi oedi.

### Polisi ac ymchwil

3.32 Rydym yn gwneud amrywiaeth o waith i helpu sicrhau bod rheoleiddio yn diogelu'r cyhoedd yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ymchwil a chyhoeddi cyngor polisi ac edrych i'r dyfodol, i ragweld newid a sicrhau fod rheoleiddio yn parhau i fod yn ystwyth. Ein hamcan yw sicrhau fod rheoleiddio a chofrestru yn seiliedig ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio fel bod y rheolyddion a'r Cofrestrau Achredededig yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd. Mae ein ffocws eleni wedi bod ar y diwygiadau rheoleiddio sydd ar ddod a'n cyhoeddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb*.

### Diwygio deddfwriaethol

3.33 Ymgynghorodd pedair Llywodraeth y DU yn gynharach eleni ar ddeddfwriaeth i ddod ag Aelodau Cyswllt Anesthesia ac Aelodau Cyswllt Meddygon i reoleiddio statudol, gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Bydd y model a gynigir ar gyfer y ddau grŵp hyn yn ffurfio'r glasbrint ar gyfer diwygio ar gyfer rheoleiddio meddygon, a'r holl reolyddion eraill yr ydym yn eu goruchwylio maes o law.[10] Byddai'r newidiadau i'r model rheoleiddio yn rhoi mwy o annibyniaeth i'r GMC a rheolyddion eraill benderfynu sut y maent yn rheoleiddio. Byddai hefyd yn rhoi pwerau newydd iddynt waredu achosion addasrwydd i ymarfer heb wrandawiad.

3.34 Rydym yn cefnogi nodau'r diwygiadau hyn oherwydd byddant yn rhoi'r hyblygrwydd i reolyddion addasu a gwella. Fe wnaethom awgrymu rhai newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddrafft yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, wedi'u harwain gan feini prawf[11] rydym wedi bod yn eu defnyddio ers 2021 ar gyfer asesu llwyddiant y diwygiadau hyn. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau i'r drafftio i wneud yn siŵr bod gan reolyddion y pwerau sydd eu hangen arnynt i reoleiddio'n effeithiol mewn meysydd penodol, ond hefyd rhai cwestiynau'n ymwneud â'r polisi sylfaenol.

3.35 Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad blaenorol,[12] fe wnaethom argymell newidiadau penodol i bwerau'r Awdurdod i gydbwyso ymreolaeth y rheoleiddiwr newydd. Rydym yn derbyn penderfyniad y Llywodraeth i beidio â bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn a'r nod o roi mwy o ymreolaeth i reolyddion, ond mae'n dal yn bwysig bod hyn yn cael ei gydbwyso'n briodol ag atebolrwydd effeithiol. Byddwn yn ystyried yn 2023/24 sut y gallwn helpu'r diwygiadau i weithio'n dda ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio.

---

[10] Ac eithrio Social Work England, sef rheoleiddiwr cymharol newydd sy'n debyg i'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y lleill.
[11] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/psa-first-look-at-government-consultation-on-reforming-regulation.pdf?sfvrsn=f9a44920_5
[12] https://www.professionalstandards.org.uk/publications/detail/professional-standards-authority-response-to-regulating-healthcare-professionals-protecting-the-public

### Polisi ac ymchwil

3.36 Yn mis Medi, fe gyhoeddom *Gofal mwy diogel i bawb – atebion o reoleiddio proffesiynol a thu hwnt.*[13] Mae ein hadroddiad yn ystyried beth arall y gall rheoleiddio ei wneud i helpu mynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr sy'n wynebu'r sector gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd sy'n deillio o newid modelau gofal, wynebu argyfwng y gweithlu a chydbwyso atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd. Dau argymhelliad allweddol oedd cyflwyno Comisiynydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch i roi'r camau angenrheidiol ar waith ar draws sefydliadau i wella diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth; a datblygu Strategaethau Rheoleiddio i gyd-fynd â strategaethau gweithlu ym mhob gwlad.

3.37 Gwnaethom hefyd edrych yn fanwl ar drefniadau rheolyddion a Chofrestrau Achrededig ar gyfer rheoli a dadansoddi eu data; eu harfer presennol a chynlluniau ar gyfer gwneud eu data yn fwy tryloyw ac ar gael i randdeiliaid; eu gwaith i ddadansoddi a hyrwyddo dysgu o'u data; a'u gwaith i gyfuno eu data gyda sefydliadau eraill. Rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn yn 2023-2024 i gefnogi cydweithredu.

3.38 Fe wnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol yn edrych ar beth yw ymddygiad gwahaniaethol mewn iechyd a gofal cymdeithasol a'r gwahanol ffyrdd y gallai'r ymddygiad hwn effeithio ar ddiogelwch a hyder y cyhoedd. Bydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau haf 2023.

3.39 Fe wnaethom adolygu 36 o ymgynghoriadau gan gyrff eraill yn erbyn ein meini prawf ac ymateb i 19. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru rhyw ar gofrestr, cynigion ar gyfer Comisiynydd Diogelwch Cleifion yn yr Alban, a Chynllun Iechyd Meddwl a Lles DHSC.

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

3.40 Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid i gefnogi ein hamcanion strategol a blaenoriaethau sefydliadol. Prif feysydd ffocws ar gyfer ymgysylltu oedd diwygio rheoleiddio, ein Cynllun Strategol, adroddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb* a Chofrestrau Achrededig. Gwnaethom hefyd gynnal gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu i gefnogi ein hadolygiad o Safon 3 (Safonau Rheoleiddio Da) sy'n asesu ymagwedd y rheolyddion at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ym mis Mawrth, cynhaliom ein chweched seminar blynyddol 'Datblygiadau rheoleiddio a'r cyd-destun Cymreig', a gynhelir gennym ar y cyd â Llywodraeth Cymru i archwilio rôl rheoleiddio wrth gefnogi'r gweithlu iechyd a gofal nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi cynyddu'r adnoddau i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth benodi Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid i'r Awdurdod.

### Cynllun Strategol

3.41 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Cynllun Strategol drafft 2023-26 a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2023. Mae pedair thema yn ein hadroddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb* o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau; rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd; wynebu'r argyfwng gweithlu; ac atebolrwydd, ofn a

[13] https://www.professionalstandards.org.uk/safer-care-for-all

ac iselder (a elwid gynt yn Gwella Mynediad i Therapïau Seicolegol). Yn ogystal â'i Gofrestr Achrededig newydd ar gyfer y Gweithlu Seicolegol Ehangach, mae ei aelodau'n cynnwys Ymarferwyr Seicolegwyr, sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).

3.53 Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom achredu Cymdeithas y DU ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad (UK-SBA).[17] Mae'r UK-SBA yn cofrestru Dadansoddwyr Ymddygiad (Bas). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cymhwyso dulliau ac egwyddorion i ddylunio rhaglenni triniaeth ymddygiadol gyda'r nod o wella canlyniadau i blant ac oedolion.

3.54 Cafodd Cofrestr Achrededig y BPS, a'r UK-SBA ill dau eu hachredu ar ôl i'r Panel Achredu gael ei ohirio i ddechrau a'i gwneud yn ofynnol i'r Cofrestrau fynd i'r afael â chamau gweithredu pellach sydd eu hangen i fodloni'r Safonau. Rhoddwyd cyfnod o chwe mis i'r ddwy Gofrestr fynd i'r afael â'r camau gweithredu.

3.55 Yn 2022/23 fe wnaethom barhau i asesu dau gais newydd a dderbyniwyd yn 2021/22. Roedd y rhain gan Gymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain; cais cyfun gan Gymdeithas Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol Prydain (BABCP) a'r Gymdeithas Therapi Ymddygiad Emosiynol Rhesymol (AREBT); Sefydliad y Tricolegwyr (a Chyngor Cenedlaethol y Seicotherapyddion Integreiddiol).

3.56 Ym mis Mehefin 2022, cawsom gais llawn am achrediad gan Athena Herd, sy'n cofrestru Gweithwyr a Hwylusir gan Geffylau. Roedd y Gofrestr wedi bodloni Safon Un dros dro ym mis Chwefror 2022.

3.57 Ym mis Ionawr 2023, canfuom fod y Cyngor Aelodau Cyswllt Practisiau Iechyd wedi bodloni Safon Un dros dro.[18] Mae HPAC yn cofrestru clinigwyr cyn ysbyty.

3.58 Ym mis Chwefror 2023 cawsom gais newydd ar gyfer Safon Un gan y Gymdeithas Gwyddonwyr Darlifiad Clinigol. Mae Gwyddonwyr Darlifiad Clinigol yn gweithio fel rhan o dimau llawfeddygol cardiothorasig ac yn rheoli'r peiriant calon-ysgyfaint (dargyfeirio cardio-pwlmonaidd) yn ystod gweithdrefnau dargyfeirio cardio-pwlmonaidd.

### *Asesiadau adnewyddu*

3.59 Fe wnaethom gynnal 18 o wiriadau blynyddol yn 2022/23. Arweiniodd tri o'r rhain at Adolygiadau wedi'u Targedu. Mae Adolygiad wedi'i Dargedu yn adolygiad manwl o un neu fwy o Safonau, a all gael eu sbarduno gan newidiadau neu bryderon sylweddol yn cael eu nodi mewn gwiriad blynyddol, neu drwy ein proses Rhannu Eich Profiad (SYE).

3.60 Fe wnaethom gynnal Adolygiad wedi'i Dargedu i'r Cristnogion mewn Cwnsela a Phroffesiynau Cysylltiedig, a arweiniodd at ddau Amod. Bodlonwyd yr Amodau hyn ym mis Ionawr 2023. Gwnaethom hefyd gynnal Adolygiad wedi'i Dargedu o Play Therapy UK, a arweiniodd at bedwar Amod.

---

[17] Initial Accreditation Report for the UK Society for Behaviour Analysis (professionalstandards.org.uk)
[18] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/panel-decisions/accredited-registers-standard-one-assessment-hpac.pdf?sfvrsn=f77e4b20_3

ein gweledigaeth yn ei blaen o ddod yn esiampl dda mewn EDI o fewn rheoleiddio. Y rhain oedd:

1. Byddwn yn datblygu ein gallu fel bod gennym y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i arwain trwy esiampl wrth greu diwylliant sy'n grymuso a chynhwysol a hyrwyddo amrywiaeth yn ein penderfyniadau.
2. Byddwn yn hyrwyddo diwylliant cynhwysol yn y gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso, yn ymgysylltu ac yn cael eu gwerthfawrogi.
3. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i annog hyrwyddo a datblygu EDI ar draws rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol a Chofrestrau Achredig.

3.76 Mae'r canlyniadau allweddol a gyflawnwyd gennym eleni yn cynnwys:

- Datblygu Safon EDI newydd ar gyfer y Safonau Achredig mewn ymgynghoriad â Chofrestrau Achredig
- Cyflwyno rhaglen olygyddol yn dathlu ac yn nodi digwyddiadau cenedlaethol allweddol ar gyfer EDI am y flwyddyn
- Dadansoddiad EDI o ddata gweithlu i nodi a gweithredu camau allweddol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth
- Yn y broses o sefydlu cynllun profiad gwaith i alluogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gael profiad o waith yr Awdurdod
- Recriwtio Aelod Bwrdd Cyswllt anweithredol.

3.77 Ym mis Ionawr 2023, adolygodd archwiliad mewnol o EDI drefniadau'r Awdurdod sydd ar waith i gyflawni'r cynllun gweithredu EDI a chefnogi gwelliant cadarnhaol mewn EDI o fewn yr Awdurdod ac yn allanol. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn helpu llywio Cynllun Gweithredu EDI 2023-24.

### *TG*

3.78 Yn y flwyddyn 2022/23 fe wnaethom gwblhau prosiect trawsnewid cwmwl a oedd yn golygu ein bod yn trosglwyddo o Seilwaith TG traddodiadol sy'n heneiddio ar y safle i amgylchedd cwbl fodern a reolir a dull gweithredu cwmwl yn gyntaf. Roedd yn cynnwys mudo'r holl seilwaith caledwedd a gwasanaethau presennol megis gweinyddwyr, byrddau gwaith rhithwir, copïau wrth gefn o ddata a theleffoni i amgylchedd cwmwl Microsoft 365 ac Azure, gan alluogi tyfu yn unol â'r anghenion, diogelwch, a chost effeithlonrwydd sy'n addas ar gyfer y ffordd fodern o weithio. Rhannwyd y mabwysiadu cwmwl yn wahanol ffrydiau gwaith a'i gwblhau o fewn pum mis.

## *Crynodeb ariannol*

3.79 Roedd ein hincwm gweithredu ar gyfer 2022/23 yn cynnwys £4.6 miliwn mewn ffioedd a dalwyd gan y rheolyddion a £0.68 o incwm heb fod yn ffioedd. Yn 2021/22 ein cyllid oedd £4.5 miliwn o ffioedd a godwyd gan y rheolyddion a £0.724m o gyllid nad yw'n ffioedd.

3.80 Ar 31 Mawrth 2023, gwnaethom gario ymlaen gyfanswm cronfeydd wrth gefn o £2.4 miliwn, yr oedd £0.7 miliwn ohono yn anghyfyngedig a £1.7 miliwn yn gyfyngedig (2021/22: £2.6 miliwn i gyd, £0.7 miliwn anghyfyngedig a £1.9 miliwn yn gyfyngedig), ar ôl diffyg gweithredu net o 0.166 miliwn (2021/22: gwarged gweithredu net o £0.287 miliwn). Dychwelom £0.1 miliwn i'r

4.56 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

4.57 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2022/23 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
| --- | --- | --- |
| Antony Townsend | 3 | 3 |
| Renata Drinkwater | 2 | 3 |
| Marcus Longley | 4 | 4 |
| Moiram Ali | 1 | 1 |
| Juliet Oliver | 1 | 1 |

### *Penodiadau i gynghorau rheolyddion*

4.58 Ym mhob un o'r pedwar cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau ar weithgarwch a datblygiadau diweddar. Cafodd y Pwyllgor hefyd adroddiad ar y seminar penodiadau blynyddol, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023. Roedd y seminar yn canolbwyntio ar y gwaith y mae rheolyddion yn ei wneud yn y maes hwn mewn perthynas ag EDI, ynghyd â gwrthdaro buddiannau posibl rhwng ymgeiswyr ac aelodau Cyngor/Bwrdd.

### *Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth Adran 29 yr Awdurdod)*

4.59 Ym mhob cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor Craffu ddiweddariad ar gynnydd apeliadau a llwyth achosion presennol y tîm. Adolygodd y Pwyllgor achosion gorchmynion cydsynio a setlwyd mewn un cyfarfod fel rhan o’i rôl oruchwylio. Cytunodd y Pwyllgor fod prosesau tîm Adran 29 wedi bod yn gadarn ac wedi cyflawni canlyniadau a oedd yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2023, adolygodd y Pwyllgor ei rôl o ran sicrhau ansawdd a goruchwylio prosesau. Mae proses wedi’i diweddaru yn cael ei datblygu gyda’r bwriad o’i rhoi ar waith yn 2023.

### *Adolygiad perfformiad blynyddol y rheolyddion*

4.60 Derbyniodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Adolygiadau Perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael adroddiadau rheolaidd ar weithrediad y dull newydd o adolygu perfformiad, ac mae'n fodlon ar y rhain.

4.61 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor ddull y tîm adolygiadau perfformiad o asesu perfformiad rheolyddion mewn perthynas ag amseroldeb addasrwydd i ymarfer. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn bryderus ynghylch nifer y rheolyddion nad ydynt yn bodloni'r Safon berthnasol a gofynnodd am sicrwydd bod y tîm yn gwneud popeth o fewn ei allu i geisio gwelliant.

### *Cofrestrau Achredig*

### Uchafbwyntiau Arolwg Staff 2022

- Cyfradd ymateb 2022 oedd 81% er cymhariaeth, y gyfradd ymateb ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) oedd 62%.
- Y gyfradd boddhad cyffredinol oedd 85% (y llynedd roedd yn 88% a'r flwyddyn flaenorol yn 87%; y gyfradd ar gyfer y CSPS y llynedd oedd 66%).
- Y llynedd fe wnaethom ychwanegu pedwar datganiad am weithio hybrid. Y sgôr gyfartalog ar gyfer y datganiadau hyn yn 2022 oedd 87% (85% yn 2021).
- Eleni fe wnaethom ychwanegu pedwar datganiad am EDI. Y sgôr gyfartalog ar gyfer y datganiadau hyn oedd 82%.

### Iechyd a diogelwch yn y gweithle

4.129 Mae gan yr Awdurdod bolisi iechyd a diogelwch yn y gwaith ac mae'r holl staff wedi derbyn cyflwyniad a hyfforddiant ar hyn. Derbyniodd yr holl staff a fynychodd y swyddfeydd newydd ddiweddariad ar y polisïau a sesiwn sefydlu newydd ym mis Mawrth 2023.

4.130 Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch i'w hadrodd.

### Perthynas undeb llafur

4.131 Nid yw'r Awdurdod yn gysylltiedig ag unrhyw Undeb Llafur ac felly nid oes ganddo ddim i'w adrodd.

### Pobl

4.132 Cwblhaodd yr Awdurdod flwyddyn tri o'i Strategaeth Pobl 2020-23. Y cyflawniadau allweddol oedd;

- Ennill achrediad Hyderus o ran Anabledd (gan gydnabod y gwaith a wnawn i annog ymgeiswyr anabl i wneud cais)
- Adolygu sut mae hysbysebion swyddi yn cael eu hysgrifennu a diweddaru hyn i apelio at gynulleidfa ehangach a bod yn fwy cynhwysol
- Hysbysebu mewn amrywiaeth o leoedd newydd gan gynnwys gwefan DWP sydd wedi'i hanelu'n benodol at ystod amrywiol o ymgeiswyr, yn enwedig ymgeiswyr anabl
- Cynnal nifer o adolygiadau polisi yn y gobaith o sicrhau bod yr iaith yn gyfeillgar i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a diweddaru ein polisïau megis y polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd yn hyn o beth
- Ymgorffori amcan EDI yn amcanion pob aelod o staff ar gyfer 2022/23. Bellach mae gan y Bwrdd rôl fwy diffiniedig yng ngwaith EDI yr Awdurdod a mwy o oruchwyliaeth dros hyn, trwy ddiweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd
- Mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi bod yn canolbwyntio ar EDI a chynrychiolaeth mewn perthynas â phenodiadau Bwrdd yn y dyfodol gan gynnwys creu rôl Aelod Cyswllt o'r Bwrdd.

## 7. Datganiadau ariannol – datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | | 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £’000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 7 | 144 | | 111 | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 53 | | 49 | |
| Hawl i ddefnyddio ased | 18 | 795 | | 0 | |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | | ***992*** | | ***160*** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 9 | 403 | | 247 | |
| Buddsoddiadau | 10 | 750 | | 750 | |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 11 | 6,758 | | 6,810 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | ***7,911*** | | ***7,807*** |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **8,903** | | **7,967** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (5,686) | | (5,389) | |
| Rhwymedigaeth prydles | 14 | (62) | | 0 | |
| Darpariaethau | 13 | (13) | | (10) | |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | | ***(5,761)*** | | ***(5,399)*** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaeth prydles | 14 | (740) | | 0 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | | **(6,501)** | | **0** |
| **Asedau llai’r rhwymedigaethau** | | | **2,402** | | **2,568** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | | | **2,402** | | **2,568** |

## 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodiadau | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** |
| Tâl aelodau | | 117 | 112 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 566 | 432 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | | 623 | 645 |
| Hyfforddiant a recriwtio | | 126 | 62 |
| AD, cyfathrebu a chynadleddau | | 60 | 15 |
| Costau sefydliadol | | 62 | 34 |
| Ffi archwiliad allanol | | 29 | 28 |
| Costau eraill | | 84 | 65 |
| **Cyfanswm** | | **1,667** | **1,393** |
| **Gwariant nad yw'n arian parod:** | | | |
| Amorteiddiad | 7 | 76 | 50 |
| Dibrisiant | 8 | 37 | 40 |
| Dibrisiant hawl i ddefnyddio ased | 18 | 7 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant nad yw'n arian parod** | | **120** | **90** |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | **1,787** | **1,483** |

* Gwnaeth yr Awdurdod daliadau o £325,062.57 (£332,768.29 yn 2021/22) i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith nad oedd yn waith archwilio parthed costau llety'r Awdurdod am ddefnydd o ofod swyddfa yn 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain.

## 5. Incwm Ffioedd

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Incwm Ffioedd gan y rheolyddion | 4,559* | 4,515 |
| **Cyfanswm** | **4,559** | **4,515** |

*Incwm ffioedd yn ymwneud â ffioedd statudol 2022/23.
Roedd incwm gan y GMC (£0.869m), NMC (£1.998m) a HCPC (£0.785m) yn cyfateb i 19%, 44% a 17% o gyfanswm yr incwm ffioedd yn y drefn honno.

## 6. Incwm Gweithredu

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Adfer costau Adran 29 | 89 | 142 |
| Incwm Cofrestrau Achrededig | 578 | 519 |
| Cyngor i sefydliadau eraill | 0 | 0 |
| Incwm is-denantiaid | 0 | 63 |
| Incwm gweithredu arall | 10 | 0 |

hwy na naw mis. Mae'r adneuon yn cydymffurfio gyda pholisi wrth gefn yr Awdurdod. Ar 31 Mawrth 2023 mae un adnau tymor byr wedi aeddfedu a bydd yn cael ei ail-fuddsoddi.

### 11. Arian parod a chyfatebol i arian parod

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 6,810 | 6,757 |
| Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod | (52) | 53 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **6,758** | **6,810** |
| *Roedd y balans canlynol wedi eu cadw yn:* | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 49 | 50 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 6,709 | 6,760 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth** | **6,758** | **6,810** |

### 12. Masnach ac elfennau taladwy eraill

10.73 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 41 | 30 |
| Trethu a nawdd cymdeithasol | 92 | 88 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **5,553 | *5,271 |
| ***Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill*** | ***5,686*** | ***5,389*** |

* Gwerth agoriadol atebolrwydd contract gyda chwsmeriaid, £5,012k yn cael ei gydnabod fel incwm yn y flwyddyn gyfredol.
** Gwerthoedd cau atebolrwydd contract a chroniadau.

10.74 Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### 13. Darpariaethau

| | Darpariaethau |
|---|---:|
| | **£'000** |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 10 |
| Yn codi yn ystod y cyfnod | 3 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **13** |

10.75 Mae'r ddarpariaeth gan CThEM ar 31 Mawrth 2023 yn cynrychioli atebolrwydd treth yr Awdurdod ar les a dderbyniwyd gan fuddsoddiadau banc.

